



Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau **Plant** **(CRIA)**

Teitl / darn o waith:	Gwella uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru
Rhif SF / LF perthnasol (os yn berthnasol)	SF/HL/4030/14
Enw'r Swyddog:	Jonathan Jones
Adran:	Addysg a Sgiliau. Paratowyd ar y cyd gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
Dyddiad:	11 Rhagfyr 2014
Llofnod:	

Chwe Cham i Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a beth yw ei amcan(ion)?

Disgrifiad cryno o'r darn o waith

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi dyheadau ac uchelgeisiau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, ac mae wedi nodi bod cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn parhau i fod gryn dipyn yn is o gymharu â'r boblogaeth ysgol brif ffrwd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisiau i wella eu canlyniadau, ond mae'r cynnydd hyd yma wedi bod yn araf ac rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn.

Mae'r strategaeth ddrafft, *Gwella uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*

yn gyd-gynhyrchiad rhwng Adran Addysg a Sgiliau ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r ddwy adran wedi cytuno i'r CRIA hwn.

Nod cyffredinol y strategaeth yw helpu ysgolion a'u partneriaid allweddol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial addysgol. Mae hyn yn atgyfnerthu ymrwymiad Gweinidogion i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal fel rhan o'u lles a'u datblygiad cymdeithasol ehangach.

Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru 2013 (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014) yn dangos bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a disgyblion eraill yn lledu wrth iddynt symud o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

Yn y Cyfnod Sylfaen, y gwahaniaeth yn y gyfran oedd 30 pwynt canran. Mae hyn yn codi i 31 pwynt canran ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. Yng Nghyfnod Allweddol 4 (trothwy Lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg), y gwahaniaeth oedd 40 pwynt canran.

Ar y cyfan, mae lefel y perfformiad yn annerbyniol o isel ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod dulliau llwyddiannus ar waith sy'n helpu plant unigol sy'n derbyn gofal i gyflawni eu huchelgeisiau. Rydym wedi gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig i nodi'r strategaethau y gellid eu rhoi ar waith yn fwy cyson ledled Cymru i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yn well.

Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

- Codi dyheadau ac uchelgeisiau trwy wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a hyrwyddo anghenion addysg y rhai sy'n gofalu amdanynt (erthygl 28)
- Atgyfnerthu arweinyddiaeth effeithiol ac atebolrwydd cyfunol ledled Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch mewn perthynas â chanlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal (erthygl 3)
- Sicrhau bod addysg yn parhau'n flaenoriaeth, hyd yn oed yn ystod y cyfnodau o newid ac ansicrwydd sy'n gallu digwydd ym mywyd plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn sy'n gadael gofal (erthygl 28)
- Ystyried pa ddata pellach fydd yn helpu ymarfer, gwaith llunio polisiau a monitro canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal (erthygl 3)
- Sicrhau bod arferion da yn cael eu nodi, eu hyrwyddo a'u rhannu fel sy'n briodol. (erthygl 13)

Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ym mis Ionawr 2015, a bydd yn dod i ben ym mis Mai 2015. Yn ystod haf 2015, bydd y dadansoddiad o'r ymgynghoriad yn cael ei gwblhau a chanlyniadau'r adroddiad yn cael eu paratoi.

Yn gynnar yn hydref 2015, byddwn yn ceisio cael cymeradwyaeth gan y Gweinidog - Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a chyhoeddi'r strategaeth (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ôl-etholiadol posibl).

Pwy yw'r buddiolwyr bwriedig?

Plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal) a'r rhai sy'n gadael gofal. Nid yw'r strategaeth hon yn cynnwys plant mewn angen na phlant wedi'u mabwysiadu.

A yw'n debygol y bydd y darn o waith yn effeithio ar blant?

Ydy – yn llwyr. Mae'r darn o waith yn targedu mater penodol sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael neu sydd wedi gadael gofal h.y. eu cyrhaeddiad addysgol. Bydd y darn o waith yn ceisio cael effaith gadarnhaol trwy wella perfformiad plant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol o'u haddysg.

A fydd y darn o waith yn cael effaith ar grŵp penodol o blant? Os felly, disgrifiwch y grŵp a fydd yn cael ei effeithio.

Bydd – plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yw'r grŵp targed penodol. O ganlyniad i ddata a gasglwyd o dan y cyfrifiad plant mewn angen a gwasanaethau cymdeithasol personol, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod gan blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal gyrhaeddiad addysgol is na'u cyfoedion yn y boblogaeth ysgol gyffredinol. Bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar eu canlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae Llywodraeth Cymru am godi dyheadau ac uchelgeisiau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal trwy wella eu cyrhaeddiad addysgol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar yr un cyfleoedd ag sydd ar gael i'w cyfoedion.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Credwn y bydd y camau a argymhellir yn y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Nod y strategaeth yw gwella arweinyddiaeth ac atebolrwydd pob corff sydd â chyfrifoldeb dros blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gwella trefniadau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u darparu er lles y plentyn, gwella'r ffordd mae ysgolion a cholegau'n cefnogi dysgwyr sy'n derbyn gofal, gwella'r ffordd mae data am blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael ei gasglu a'i rannu ac adolygu sut mae cyllid yn cael ei gyfeirio at blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i sicrhau gwelliannau pendant i'r addysg a ddarperir i'r cohort hwn.

Byddwn yn monitro a mesur llwyddiant yn flynyddol trwy Gyfrifiad Plant mewn Angen Cymru ac yn cyhoeddi diweddariad blynyddol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymadau yn y strategaeth.

Byddwn yn disgwyl gweld gwelliannau sylweddol ym mhob cyfnod allweddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal erbyn 2018.

A oedd angen i chi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a / neu randdeiliaid i gael eu barn gan ddefnyddio dulliau ymgynghori neu gyfranogol?

Rhywfaint o ymgysylltiad cynnar â rhanddeiliaid sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol neu anuniongyrchol dros blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, o ran eu haddysg a'u lles cymdeithasol. Bydd yr ymarfer ymgynghori sydd ar ddod yn cipio safbwyntiau ychwanegol ac ehangach, ac fe'i cefnogir gan ddau seminar ymgynghori y gall rhanddeiliaid allweddol fynd iddynt. Gan weithio trwy Voices From Care, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal trwy'r broses ymgynghori, a bydd fersiwn hawdd ei deall o'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi.

A oes angen i chi gynhyrchu fersiynau o gynigion/ymgynghoriadau sy'n addas i blant?

Oes. Rydym wedi trefnu i gynhyrchu fersiwn o'r strategaeth sy'n addas i blant (hawdd ei deall).

Cam 3. Sut mae'ch darn o waith yn cefnogi a hyrwyddo hawliau plant?

Mae'r holl erthyglau isod yn ymwneud â'r gwaith i godi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ysgolion Cymru:-

Erthygl 3 (Yr hyn sydd orau i'r plentyn): Rhaid ystyried yr hyn sydd orau i blant wrth wneud penderfyniadau a all effeithio arnynt. Dylai pob oedolyn wneud yr hyn sydd orau i'r plentyn. Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau, dylent ystyried sut y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar blant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i lunwyr polisïau, cyllidebau a deddfau.

Erthygl 12 (Parchu safbwyntiau'r plentyn): Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 13 (Rhyddid mynegiant): Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth, cyn belled nad yw'r wybodaeth honno'n niweidiol iddyn nhw neu eraill. Wrth ymarfer eu hawl i ryddid mynegiant, rhaid i blant hefyd barchu hawliau, rhyddid ac enw da pobl eraill. Mae rhyddid mynegiant yn cynnwys yr hawl i rannu gwybodaeth fel y mynnont, gan gynnwys trwy siarad, arlunio neu ysgrifennu.

Erthygl 20 (Plant na all eu teulu ofalu amdanynt): Mae gan blant na all eu teulu eu hunain ofalu amdanynt yr hawl i ofal arbennig, a rhaid i'r bobl sy'n gofalu amdanynt wneud hynny mewn ffordd

briodol a pharchu eu grŵp ethnig, eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.

Erthygl 25 (Adolygu triniaeth mewn gofal): Bydd gan blant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdodau lleol, yn hytrach na'u rhieni, hawl i gael adolygiad rheolaidd o'u trefniadau byw i weld ai dyma'r trefniadau mwyaf priodol. Dylai eu gofal a'u triniaeth fod yn seiliedig ar "yr hyn sydd orau i'r plentyn" bob amser.

Erthygl 28 – Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu hunan-barch dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Mae'r strategaeth yn cryfhau'r agwedd at gynhwysiant ysgol a chymorth ar gyfer presenoldeb. Mae plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn grŵp agored i niwed ac mae'r strategaeth yn cadarnhau'r ddarpariaeth i gefnogi eu presenoldeb ysgol a'u hanghenion dysgu/ymddygiadol.

Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn yn llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

Fel rhan o'r amodau addysgu a dysgu, mae'r strategaeth yn cadarnhau bod ethos iach yn cael ei greu mewn ysgolion i wella hunan-barch a lles plant. Mae hyn yn gysylltiedig ag addysg gymdeithasol ac iechyd yn y cwricwlwm.

Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniadau'r Gweinidog

Pan fyddwch chi'n rhoi cyngor ac yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog, cofiwch ystyried y canlynol:

Mae'r cyngor i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau bod y CRIA hwn wedi'i gwblhau. Ni nodwyd unrhyw wrthdaro ag erthyglau CCUHP.

Cam 5. Cofnodi a chyfathrebu'r canlyniad

Fersiwn derfynol i'w chadw ar i-share

Caiff y CRIA hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cam 6. Diweddarau'r darn o waith yn ôl yr angen

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r CRIA, a fu unrhyw effaith ar gyllidebau? Lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle mae dyraniadau ychwanegol wedi'u gwneud, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei asesu fel rhan o broses y CRIA.	Naddo
Rhowch fanylion:	

Monitro ac Adolygu

A oes angen i ni fonitro / adolygu'r cynnig?	Oes
Os yn berthnasol: nodwch y dyddiad adolygu	Chwefror 2015



THE UNITED NATIONS CONVENTION ON THE RIGHTS OF THE CHILD

www.uncrcletsgetitright.co.uk

The United Nations Convention on the Rights of the Child is an international agreement that protects the human rights of the children under the age of 18. On 16 December 1991, the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland formally agreed to make sure that every child in the UK has all the rights as listed in the convention. The Welsh Government has shown its commitment to the convention by adopting it as the basis for policy making for children in Wales.

Altogether there are 54 articles in the convention. Articles 43-54 are about how adults and governments should work together to make sure all children are entitled to their rights. The information contained here is about articles 1-42 which set out how children should be treated.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Article 1

Everyone under 18 years of age has all the rights in this Convention.

Article 2

The Convention applies to everyone whatever their race, religion, abilities, whatever they think or say and whatever type of family they come from.

Article 3

All organisations concerned with children should work towards what is best for each child.

Article 4

Governments should make these rights available to children.

Article 5

Governments should respect the rights and responsibilities of families to direct and guide their children so that, as they grow, they learn to use their rights properly.

Article 6

All children have the right to life. Governments should ensure that children survive and develop healthily.

Article 7

All children have the right to a legally registered name, the right to a nationality and the right to know and, as far as possible, to be cared for by their parents.

Article 8

Governments should respect children's right to a name, a nationality and family ties.

Article 9

Children should not be separated from their parents unless it is for their own good, for example if a parent is mistreating or neglecting a child. Children whose parents have separated have the right to stay in contact with both parents, unless this might hurt the child.

Article 10

Families who live in different countries should be allowed to move between those countries so that parents and children can stay in contact or get back together as a family.

Article 11

Governments should take steps to stop children being taken out of their own country illegally.

Article 12

Children have the right to say what they think should happen, when adults are making

decisions that affect them, and to have their opinions taken into account.

Article 13

Children have the right to get and to share information as long as the information is not damaging to them or to others.

Article 14

Children have the right to think and believe what they want and to practise their religion, as long as they are not stopping other people from enjoying their rights. Parents should guide their children on these matters.

Article 15

Children have the right to meet together and to join groups and organisations, as long as this does not stop other people from enjoying their rights.

Article 16

Children have a right to privacy. The law should protect them from attacks against their way of life, their good name, their families and their homes.

Article 17

Children have the right to reliable information from the mass media. Television, radio and newspapers should provide information that children can understand, and should not promote materials that could harm children.

Article 18

Both parents share responsibility for bringing up their children, and should always consider what is best for each child. Governments should help parents by providing services to support them, especially if both parents work.

Article 19

Governments should ensure that children are properly cared for, and protect them from violence, abuse and neglect by their parents or anyone else who looks after them.

Article 20

Children who cannot be looked after by their own family must be looked after properly, by people who respect their religion, culture and language.

Article 21

When children are adopted the first concern must be what is best for them. The same rules should apply whether the children are adopted in the country where they were born or taken to live in another country.

Article 22

Children who come into a country as refugees should have the same rights as children born in that country.

Article 23

Children who have any kind of disability should have special care and support so that they can lead full and independent lives.

Article 24

Children have the right to good quality health care and to clean water, nutritious food and a clean environment so that they will stay healthy. Rich countries should help poorer countries achieve this.

Article 25

Children who are looked after by their local authority rather than their parents should have their situation reviewed regularly.

Article 26

The Government should provide extra money for the children of families in need.

Article 27

Children have a right to a standard of living that is good enough to meet their physical and mental needs. The Government should help families who cannot afford to provide this.

Article 28

Children have a right to an education. Discipline in schools should respect children's human dignity. Primary education should be free. Wealthy countries should help poorer countries achieve this.

Article 29

Education should develop each child's personality and talents to the full. It should encourage children to respect their parents, and their own and other cultures.

Article 30

Children have a right to learn and use the language and customs of their families, whether these are shared by the majority of people in the country or not.

Article 31

All children have a right to relax and play, and to join in a wide range of activities.

Article 32

The Government should protect children from work that is dangerous or might harm their health or their education.

Article 33

The Government should provide ways of protecting children from dangerous drugs.

Article 34

The Government should protect children from sexual abuse.

Article 35

The Government should make sure that children are not abducted or sold.

Article 36

Children should be protected from any activities that could harm their development.

Article 37

Children who break the law should not be treated cruelly. They should not be put in prison with adults and should be able to keep in contact with their families.

Article 38

Governments should not allow children under 15 to join the army. Children in war zones should receive special protection.

Article 39

Children who have been neglected or abused should receive special help to restore their self respect.

Article 40

Children who are accused of breaking the law should receive legal help. Prison sentences for children should only be used for the most serious offences.

Article 41

If the laws of a particular country protect children better than the articles of the Convention, then those laws should stay.

Article 42

The Government should make the Convention known to all parents and children.

For further information on the United Nations Convention on the Rights of the Child please visit: The Welsh Government's UNCRC Website: www.uncrcletsgetitright.co.uk/

Cic - The National Information and Advice Service for Young People
www.ciconline.co.uk/news/